

## **Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn** **Answers to Questions not reached in Plenary**

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### **Cynnwys** **Contents**

- 1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid  
Questions on Local Government to the Finance Minister
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

### **Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid** **Questions on Local Government to the Finance Minister**

#### **Y Dreth Gyngor (Cymorth i Bensiynwyr)** **Council Tax (Assistance to Pensioners)**

**Q2 Laura Anne Jones:** Would the Minister make a statement on assistance available to Welsh pensioners when paying council tax? OAQ0121(LGP) *Transferred for written answer.*

**Sue Essex:** I would urge pensioners to check with their local council that they are receiving the help that they deserve. Many may be able to get council tax benefit, which can be as much as 100 per cent. Single pensioners, who live on their own, automatically qualify for a single occupancy discount.

*Atebwyd cwestiynau 3 i 9 yn y Cyfarfod Llawn.*  
*Questions 3 to 9 were answered in Plenary.*

#### **Ariannu Llywodraeth Leol** **Local Government Funding**

**Q10 Glyn Davies:** What discussions has the Minister had with the WLGA about funding for local government in 2005-06? OAQ0171(LGP)

**Sue Essex:** I have regular discussions with the Welsh Local Government Association, at which issues regarding funding are included. In particular, I discussed the funding for local government with the WLGA at the consultative forum on finance, which received reports on the expenditure

**C2 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth sydd ar gael i bensiynwyr yng Nghymru ar gyfer talu'r dreth gyngor? OAQ0121(LGP) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**Sue Essex:** Byddwn yn cymhell pensiynwyr i geisio cadarnhad gan y cyngor lleol eu bod yn derbyn y cymorth y maent yn deilwng ohono. Gall nifer fod yn gymwys i gael budd-dal y dreth gyngor, a all fod gymaint â 100 y cant. Mae pensiynwyr sengl, sy'n byw ar eu pen eu hun, yn gymwys i gael disgownt deiliadaeth sengl.

**C10 Glyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda CLILC am ariannu llywodraeth leol yn 2005-06? OAQ0171(LGP)

**Sue Essex:** Caf drafodaethau rheolaidd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, lle byddwn yn trafod materion yn ymwneud â chyllido. Yn benodol, bu i mi drafod cyllido llywodraeth leol gyda CLILC yn y fforwm ymgynghorol ar gyllid, a dderbyniodd adroddiadau ar bwysau gwario a

pressures and distributional issues at its meeting in October last year.

materion dosbarthu yn ei gyfarfod fis Hydref y llynedd.

### **Hyrwyddo Arfer Gorau Promoting Best Practice**

**Q11 John Griffiths:** Will the Minister make a statement on Assembly Government strategy to further promote the spreading of best practice in local government in Wales? OAQ0133(LGP)

**C11 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo arfer da ymhellach mewn llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ0133(LGP)

**Sue Essex:** I believe strongly that Welsh local authorities will reap real benefits from shared learning and the effective dissemination of good practice. The Welsh Assembly Government is supporting the introduction of Excellence Wales and investing in developing the skills of those responsible for delivering services in Wales through 'Public Sector Management Wales'.

**Sue Essex:** Credaf yn gryf y bydd awdurdodau lleol Cymru yn elwa o ddysgu gan y naill â'r llall ac o rannu arferion da. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi cyflwyniad Rhagoriaeth Cymru ac yn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu sgiliau'r rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau yng Nghymru drwy Reolaeth Sector Cyhoeddus Cymru.

### **Ailfandio'r Dreth Gyngor Council Tax Rebanding**

**Q12 Rhodri Glyn Thomas:** Will the Minister make a statement on the effect of rebanding on the rise of council tax levels? OAQ0149(LGP)

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith ailfandio ar y cynnydd yn y dreth gyngor? OAQ0149(LGP)

**Sue Essex:** Local authorities have now set their budget requirements and council tax levels. My officials are undertaking an analysis and a statistical release of this information is planned for 23 March.

**Sue Essex:** Mae awdurdodau lleol bellach wedi pennu eu hanghenion cyllidebol a lefelau eu treth gyngor. Mae fy swyddogion yn dadansoddi hynny, a bwriedir cyhoeddi ystadegau yn seiliedig ar y wybodaeth hon ar 23 Mawrth.

### **Y Dreth Gyngor (Gostyngiadau i Bobl dros 65) Council Tax (Reductions for Over-65s)**

**Q13 Alun Cairns:** What plans does the Minister have to reduce the council taxes of people over the age of 65? OAQ0170(LGP)

**C13 Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ostwng y dreth gyngor i bobl dros 65 oed? OAQ0170(LGP)

**Sue Essex:** Eligible households that have moved up the banding system by two or more bands will have their council tax reduced to a one-band increase in 2005-06. Pensioners who think they might be eligible for council tax benefit or a discount should establish the help already available with local councils.

**Sue Essex:** Ni fydd treth gyngor cartrefi cymwys sydd wedi symud i fyny dau neu fwy o fandiau o fewn y system fandio ond yn symud i fyny un band yn 2005-06. Dylai pensïynwyr sy'n credu y gallent fod yn gymwys ar gyfer budd-dal y dreth gyngor neu ostyngiad geisio'r help sydd ar gael eisoes gan gynghorau lleol.

### **Gwasanaethau Lleol yn Sir Gaerfyrddin Local Services in Carmarthenshire**

**Q14 Christine Gwyther:** Will the Minister outline Assembly measures to support local public services in Carmarthenshire? OAQ0123(LGP)

**C14 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu mesurau'r Cynulliad i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus lleol yn Sir Gaerfyrddin? OAQ0123(LGP)

**Sue Essex:** I concluded a policy agreement with Carmarthenshire County Council in October 2004. Under this, the authority will make significant improvements in service delivery by 2007. The agreement reflects our strategic priorities and Carmarthenshire's particular needs.

**Sue Essex:** Gorffennais lunio cytundeb polisi gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ym mis Hydref 2004. Yn unol â hyn, bydd yr awdurdod yn gwneud gwelliannau sylweddol o ran darparu gwasanaethau erbyn 2007. Mae'r cytundeb yn adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol ac anghenion penodol sir Gaerfyrddin.

### Cyfleusterau Cyhoeddus Public Conveniences

**Q15 Kirsty Williams:** Will the Minister make a statement on the provision of public conveniences by local authorities? OAQ0129(LGP)

**C15 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfleusterau cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol? OAQ0129(LGP)

**Sue Essex:** It is for local authorities, as democratically-elected bodies, to determine the needs and priorities of their areas, including the provision of public toilets. The Assembly Government has set aside £25,000 to develop a continence management programme as part of the strategy for older people.

**Sue Essex:** Awdurdodau lleol, fel cyrff a etholir yn ddemocrataidd, sydd i benderfynu anghenion a blaenoriaethau'u hardaloedd, gan gynnwys darpariaeth toiledau cyhoeddus. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo £25,000 ar gyfer datblygu rhaglen rheoli ymataliol fel rhan o'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn.

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

#### Ariannu'r Chweched Dosbarth Funding for Sixth-form Education

**Q9 Jocelyn Davies:** Will the Minister make a statement on funding for sixth-form education? OAQ0164(ELL)

**C9 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu addysg dosbarth chwech? OAQ0164(ELL)

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** Education and Learning Wales provides local education authorities with funding allocations for sixth forms. For 2005-06, ELWa has increased total funding to some £108.9 million—an increase of 4.07 per cent compared to 2004-05.

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae Dysgu ac Addysgu Cymru yn darparu dyraniadau ariannol i awdurdodau addysg lleol. Ar gyfer 2005-06, mae ELWa wedi cynyddu cyfanswm yr arian i oddeutu £108.9 miliwn—cynnydd o 4.07 y cant o gymharu â 2004-05.

#### Cyflawniadau Addysg y Llywodraeth yn Ne Clwyd The Government's Education Achievements in Clwyd South

**Q10 Karen Sinclair:** Will the Minister outline the main Welsh Assembly Government achievements in the fields of education and lifelong learning in Clwyd South? OAQ0139(ELL)

**C10 Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes Addysg a Dysgu Gydol Oes yn Ne Clwyd? OAQ0139(ELL)

**Jane Davidson:** Clwyd South, like all other areas of Wales, is benefiting from the implementation of our key policies for education and lifelong learning as set out in 'The Learning Country' and other related policy documents. These policies provide a

**Jane Davidson:** Fel ardaloedd eraill o Gymru, mae De Clwyd yn elwa ar weithrediad ein polisiâu allweddol ar gyfer addysg a dysgu gydol oes fel y'i nodir yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' a dogfennau polisi perthnasol eraill. Mae'r polisiâu hyn yn sail cadarn

strong foundation for everyone in Wales to achieve his or her potential. i bawb yng Nghymru wireddu eu potensial.

### **Cyflawniadau Addysg y Llywodraeth ym Merthyr Tudful a Rhymni The Government's Education Achievements in Merthyr Tydfil and Rhymney**

**Q11 Huw Lewis:** Will the Minister make a statement on the Assembly Government's achievements in post-16 education and lifelong learning in Merthyr Tydfil and Rhymney? OAQ0149(ELL)

**Jane Davidson:** There are now wider opportunities for learning throughout Wales, and particularly for learners who are drawn from deprived communities such as those in the Merthyr Tydfil and Rhymney valley areas. This represents a solid foundation for skills, employment and prosperity in those areas in the future.

**C11 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lwyddiannau Llywodraeth y Cynulliad ym maes addysg a dysgu gydol oes ôl-16 ym Merthyr Tudful a Rhymni? OAQ0149(ELL)

**Jane Davidson:** Ceir cyfleoedd dysgu ehangach drwy Gymru erbyn hyn, yn enwedig i ddysgwyr o gymunedau difreintiedig megis y rheini yn ardaloedd Merthyr Tudful a chwam Rhymni. Mae hyn i'w weld yn sail cadarn i sgiliau, cyflogaeth a ffyniant yn yr ardaloedd hynny yn y dyfodol.

### **Athrawon a Phrifathrawon (Datblygiad Proffesiynol) Teachers and Headteachers (Professional Development)**

**Q12 Christine Gwyther:** Will the Minister make a statement on measures to support teachers and headteachers and their professional development? OAQ0143(ELL)

**Jane Davidson:** New teachers must complete an induction year and two years of early professional development. Schools receive £3,700 per teacher during induction, and £1,000 a year during EPD. Some £2 million is available through the General Teaching Council for Wales's continuing professional development programme. Some £1.55 million will support the headship programme for aspiring, new and serving heads in Wales during 2005-06.

**C12 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau i gefnogi athrawon a phenaethiaid a'u datblygiad proffesiynol? OAQ0143(ELL)

**Jane Davidson:** Mae'n ofynnol i athrawon newydd gwblhau blwyddyn sefydlu a dwy flynedd o ddatblygiad proffesiynol cynnar. Mae ysgolion yn derbyn £3,700 fesul athro yn ystod y cyfnod sefydlu, a £1,000 y flwyddyn yn ystod datblygiad proffesiynol cynnar. Mae tua £2 filiwn ar gael drwy gyfrwng rhaglen datblygu proffesiynol parhaus Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Bydd tua £1.55 miliwn yn cynnal y rhaglen prifathrawiaeth ar gyfer darpar brifathrawon, prifathrawon newydd a phrifathrawon sydd eisoes yn y swydd yng Nghymru yn ystod 2005-06.

### **Lledu Arfer Gorau Spreading Best Practice**

**Q13 John Griffiths:** Will the Minister make a statement on spreading best practice across schools in Wales? OAQ0205(ELL)

**Jane Davidson:** In developing new policies and promoting existing ones, the Assembly Government builds in opportunities for sharing good practice with, and between, schools and local authorities. This includes issuing good practice documents, running or contributing to conferences and workshops and supporting centres of

**C13 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fynd ag arfer gorau ar led drwy ysgolion Cymru? OAQ0205(ELL)

**Jane Davidson:** Wrth ddatblygu polisiau newydd a hybu rhai sy'n bodoli eisoes, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arfer da gydag ysgolion ac awdurdodau lleol, a rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi dogfennau arfer da, cynnal neu gyfrannu at gynadleddau a gweithdai a chynorthwyo

excellence. Much sharing goes on at local level, and I have asked the GTCW to organise a series of workshops and a conference on pedagogy, starting in May. These will focus on how best practice can be spread.

canolfannau rhagoriaeth. Rhennir llawer ar lefel leol, a gofynnais i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru drefnu cyfres o weithdai a chynhadledd ar addysgeg, gan ddechrau ym mis Mai. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y modd y gellir lledaenu arfer da.

### **Cyllideb Addysg Uwch The Higher Education Budget**

**Q14 Helen Mary Jones:** Will the Minister make a statement on the higher education budget?  
OAAQ0162(ELL)

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyllideb ar gyfer addysg uwch?  
OAAQ0162(ELL)

**Jane Davidson:** The higher education budget announced recently includes increases to previously published baselines above the rate of inflation. We have provided additional funds to carry forward reconfiguration and collaboration, third mission activities and medical school expansion.

**Jane Davidson:** Mae'r gyllideb ar gyfer addysg uwch, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnwys cynnydd sydd uwch na'r gyfradd chwyddiant i linellau sylfaen a gyhoeddwyd yn flaenorol. Yr ydym wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer ailgyflunio a chydweithrediad, gweithgareddau trydedd genhadaeth, ac er mwyn ehangu'r ysgol feddygol.

### **Ysgolion Cynradd Pentrefol Village Primary Schools**

**Q15 Glyn Davies:** What is the Ministers policy for maintaining primary schools in rural villages?  
OAAQ0150(ELL)

**C15 Glyn Davies:** Beth yw polisi'r Gweinidog ar gynnal ysgolion cynradd mewn pentrefi gwledig?  
AAQ0150(ELL)

**Jane Davidson:** The location of primary school provision is the responsibility of local education authorities. Local education authorities should ensure that the pattern of provision, whether it be in urban or rural areas, is suitable to meet demand for places through English and Welsh and delivers high quality education in buildings fit for purpose.

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb awdurdodau addysg lleol yw lleoliad darpariaeth ysgolion cynradd. Dylai awdurdodau addysg lleol sicrhau bod y patrwm darpariaeth, boed mewn ardaloedd trefol neu wledig, yn addas ac yn cwrdd â'r gofyn am leoedd cyfrwng Saesneg a Chymraeg ac yn darparu addysg o safon uchel mewn adeiladau sydd yn addas at y diben.